

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: Osian.Bowyer@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Bil Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus

(Cymru):

Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2019

Awduron:
Osian Bowyer

Trosolwg o'r papur:
Mae'r papur hwn yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2 o Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) y Pwyllgor Cyllid.



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Gwaith Craffu yng Nghyfnod 1	2
Gwelliannau yng Nghyfnod 2	4
Y camau nesaf	12

Cyflwyniad

Ar 2 Hydref 2017, cafodd y **Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil) a'r **Memorandwm Esboniadol** eu cyflwyno gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Pe bai'n cael ei basio, byddai'r Bil Pwyllgor yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol, sef **Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005** (Deddf 2005), sy'n llywodraethu swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys darpariaethau sydd â'r nod o'i gwneud yn **haws i bobl gael mynediad** i wasanaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwneir hynny drwy ddileu'r gofyniad yn Neddf 2005 fod yn rhaid i gŵyn gael ei derbyn yn ysgrifenedig. Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff yr Ombwdsmon ymgymryd ag **ymchwiliadau ar ei liwt ei hun** a chyhoeddi **gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion** ar gyfer awdurdodau rhestredig (fel y nodir yn Atodlen 3).

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth benodol i ganiatáu i'r Ombwdsmon ymchwilio i driniaeth feddygol breifat gan gynnwys gofal nyrsio os cafwyd triniaeth fel rhan o **lwybr iechyd cyhoeddus/preifat**. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn darparu y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat tu hwnt i driniaeth a gafwyd fel rhan o'r llwybr cyhoeddus/preifat.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi:

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch swydd yr Ombwdsmon a swyddogaethau ymchwilio'r rôl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau awdurdodau rhestredig ar gyfer ymdrin â chwynion ac yn galluogi'r Ombwdsmon i gyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae'r Bil hefyd yn sicrhau mynediad i wasanaethau'r Ombwdsmon yn y dyfodol ac yn caniatáu i'w swyddfa ddatblygu canllawiau i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol, fel newidiadau i ddulliau cyfathrebu electronig a datblygiadau ym maes technoleg.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd grynoded o **Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)** ym mis Mawrth 2018. Mae'r crynodeb hwnnw'n rhoi golwg gyffredinol o brif ddarpariaethau, strwythur a chefnidir y ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnwys barn y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o oblygiadau ariannol y Bil.

Gwaith Craffu yng Nghyfnod 1

Yng Nghyfnod 1 o broses deddfwriaethol y Cynulliad, gwnaed gwaith craffu ar y Bil gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau egwyddorion cyffredinol y Bil ac ystyriodd y goblygiadau ariannol hefyd (gan na allai'r Pwyllgor Cyllid graffu ar ei Fil ei hun). Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar rhwng 29 Tachwedd 2017 a 25 Ionawr 2018 gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru a Gwasanaeth Annibynnol Dyfarnu ar Gwynion y Sector Gofal Iechyd (ISCAS). **Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig drwy ymgynghoriad cyhoeddus**, cynhaliwyd dwy sesiwn graffu gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

Yn ei **Adroddiad yn dilyn Cyfnod 1**, gwnaeth y Pwyllgor gyfanswm o 19 o argymhellion, ac mae'r rhesymau amdanynt wedi'u nodi yn yr **Adroddiad Cyfnod 1 ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Yn hollbwysig, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad gytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil.

Clywodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 15 Ionawr 2018. Roedd y Pwyllgor yn canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i basio'r Bil, y broses o ddrafftio'r Bil, a sylwadau ar bwerau penodol i wneud is-deddfwriaeth.

Gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol un argymhelliad yn ei **Adroddiad yn dilyn Cyfnod 1**.

Cyflwynwyd y cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 21 Mawrth 2018**. Cytunwyd i egwyddorion y Bil, gyda 47 o blaid ac un yn erbyn.

Er mai'r drefn arferol fyddai i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (ar y pryd) gyflwyno Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil ar unwaith, gan ganiatáu i'r Bil symud ymlaen i Gyfnod 2, ni wnaed hynny. Roedd hynny er mwyn caniatáu gwaith ychwanegol ar y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod angen dadansoddiad mwy cadarn o'r costau mewn rhai meysydd. O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol hwn, cyhoeddwyd **Memorandwm Esboniadol diwygiedig**, yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, ym mis Gorffennaf 2018.

Cytunwyd ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 17 Gorffennaf 2018**, gyda 47 o blaid ac un yn erbyn. Yn ystod y ddadl ar y penderfyniad ariannol, diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, yn arbennig am:

...y ffordd y mae wedi gweithio gyda'r Llywodraeth dros yr wythnosau a aeth heibio ers y ddadl Cyfnod 1 honno, a'r sylw manwl iawn a roddodd i wneud y newidiadau sy'n caniatáu imi ddweud heddiw bod y Llywodraeth yn gallu argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i'r penderfyniad ariannol.

Maes o law, pleidleisiodd y Cynulliad i gytuno ar y penderfyniad ariannol, a ganiataodd i'r Bil fynd ymlaen i waith craffu Cyfnod 2.

Gwelliannau yng Nghyfnod 2

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 22 Mawrth 2018, gan bara tan 24 Ionawr 2019. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i drafod a gwaredu gwelliannau Cyfnod 2 **ar 31 Ionawr 2019**.

Cafwyd cyfanswm o 230 o welliannau yng Nghyfnod 2, ond tynnwyd un yn ôl. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r gwelliannau gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Llyr Gruffydd AC. Cynigiodd Llywodraeth Cymru un gwelliant, a chynigiwyd 10 gwelliant gan Aelodau.

Yn gwyno:

- Cynigiwyd 218 o welliannau gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil – derbyniwyd 217 a methodd un;
- Derbyniwyd y gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Cynigiwyd chwe gwelliant gan Aelod y Ceidwadwyr dros Ogledd Cymru, Mark Isherwood AC – tynnwyd dau welliant yn ôl, ni chynigiwyd dau welliant, a ni chytunwyd dau welliant.
- Cynigiwyd pedwar gwelliant gan Aelod Plaid Cymru dros y Rhondda, Leanne Wood AC – ni chynigiwyd un gwelliant, tynnwyd dau welliant yn ôl, a methodd un gwelliant.

Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 wedi'i **gyhoeddi ar wefan y Cynulliad**.

Cafodd y gwelliannau eu grwpio mewn 32 adran ar wahân, ac roedd cyfran sylweddol ohonynt yn welliannau drafftio neu'n rhai technegol.

Gwelliannau'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil

Ar nodyn cyffredinol, nid oedd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil o'r farn y byddai'r gwelliannau a gynigiwyd yng Nghyfnod 2 yn cael effaith sylweddol ar oblygiadau ariannol y Bil. Derbyniwyd holl welliannau'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil namyn un, a methodd un gwelliant. Oni nodir fel arall, derbyniwyd pob grŵp o welliannau heb fod angen pleidlais.

Roedd **Grŵp 1** yn ymwneud â materion drafftio, ac nid oedd y gwelliannau yn y grŵp hwn yn effeithio ar fwriad polisi'r Bil nac yn newid y bwriad polisi.

Roedd **Grŵp 2** yn cynnwys un gwelliant (171) yn ymwneud ag *Anghymhwys*. Ar hyn o bryd, caiff Ombwdsmon ei anghymwys am gyfnod o amser rhag cyflawni swydd gydag awdurdod rhestredig oni bai bod Comisiwn y Cynulliad yn cymeradwyo fel arall. Roedd y gwelliant yn cynnig hepgor y gair 'Comisiwn' gan nodi 'pwyllgor o'r Cynulliad' yn lle hynny.

Roedd **Grŵp 3** yn ymwneud â *diddymiadau a diwygiadau canlyniadol*. Gwelliannau technegol oedd y rhain yn bennaf, ond nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil mai'r gwelliant allweddol cyntaf oedd gwelliant 129. Roedd y gwelliant hwn yn newid adran 74 i gynnwys darpariaethau penodol o Ddeddf 2005 a sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r Bil ddod yn Ddeddf.

Roedd **Grŵp 4** yn ymwneud â *ffioedd*. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant (143). Yn wreiddiol, dim ond mewn perthynas â chostau a wynebir yn sgil cyflwyno adroddiad o dan Ran 3 o'r Bil y caniatwyd i'r Ombwdsmon gadw'r ffioedd. Byddai'r gwelliant yn caniatáu i'r Ombwdsmon gadw'r ffioedd a gesglir o dan Ran 5 hefyd.

Roedd **Grŵp 5** yn ymwneud ag Atodlen 1 i'r Bil, yn benodol o ran adroddiadau blynyddol a chyfrifon. Mae'r newid mwyaf arwyddocaol yn rhoi'r hyblygrwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwyno cyfrifon ardystiedig ar ôl y terfyn amser penodedig o bedwar mis.

Roedd gwelliannau **Grŵp 6** yn ymwneud â *dileu cyfeiriad at "cwyn a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon"*. Nod y gwelliannau oedd ei gwneud yn haws croesgyfeirio yn y Bil.

Roedd **Grŵp 7** yn ymwneud â'r *pŵer i ymchwilio i gwynion sydd wedi'u gwneud neu wedi'u hatgyfeirio*. Y gwelliannau allweddol yn y grŵp hwn oedd gwelliannau 4 a 5. Yn ôl yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, roeddent yn adlewyrchu gallu'r Ombwdsmon i ymchwilio i wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd yr ymdrinnir â hwy yn yr adran 16 newydd arfaethedig, a gâi ei mewnosod gan welliant 24.

Roedd gwelliannau **Grŵp 8** yn ymwneud ag *ymchwiliadau'r Ombwdsmon ar ei liwt ei hun*. Y gwelliannau allweddol oedd 11 a 12, sy'n diwygio Rhan 3 o'r Bil. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys meini prawf yr oedd angen eu bodloni cyn y gallai'r Ombwdsmon ddechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Roedd y gwelliannau'n dileu'r meini prawf hyn, ac yn cyflwyno dyletswydd yn lle hynny i'r Ombwdsmon gyhoeddi meini prawf, yn ogystal â nodi gofynion ar gyfer yr ymgynghoriad ac ar gyfer cymeradwyo'r meini prawf. Cynigiwyd gwelliannau ag effaith debyg ar gyfer Rhan 5 o'r Bil, yn ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Rhoddodd y Gweinidog grynodedig o brif agweddau'r grŵp hwn o welliannau:

The amendments in this group highlight the central requirements of the power for the ombudsman to conduct own-initiative investigations and they give the National Assembly the flexibility to consider how well the criteria are working and to change them as appropriate. Amendments 11 and 80 also ensure that, whatever the criteria for an own-initiative investigation, the public-interest test will form the basis of any investigation. This must always be the central reason for which these powers are used.

Roedd **Grŵp 9** yn ymwneud â *phwy sy'n cael gwneud cwynion* i'r Ombwdsmon. Y gwelliant allweddol yn y grŵp hwn oedd gwelliant 14, sy'n egluro y gall y personau sydd â hawl i wneud cwyn i'r Ombwdsmon gynnwys person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i wneud hynny gan y person a dramgwyddwyd. Hyd yn oed os na all y person a dramgwyddwyd awdurdodi person arall yn ysgrifenedig, gall yr Ombwdsmon dderbyn y gŵyn ar unrhyw ffurf sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon,

Roedd **Grŵp 10** yn ymwneud yn benodol â'r *weithdrefn gwyno*. Roedd nifer o welliannau yng ngrŵp 10, ond un o'r rhai allweddol oedd gwelliant 17, a oedd yn gofyn i'r Ombwdsmon esbonio goblygiadau gwneud cwyn llafar i'r person a wnaeth y gwyn. Mae'n newid y cyfeiriad at 'person a dramgwyddwyd' i'r 'person a wnaeth y gŵyn', oherwydd efallai na all y person a dramgwyddwyd gyfathrebu â'r Ombwdsmon.

Roedd **Grŵp 11** yn ymwneud â *materion y gellir ymchwilio iddynt*. Cyflwynwyd chwe gwelliant. Roedd pedwar ohonynt gan yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, a dau gan Mark Isherwood AC. Y gwelliannau allweddol yn y grŵp hwn oedd 23 a 24; nid oeddent yn newid bwriad y Bil, ond roeddent yn mewnosod adran 16 newydd. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

Amendments 23 and 24 are a crucial change to ensure the policy intention of giving the ombudsman power to investigate public/private healthcare is enacted as intended.

[...] Removing the definition of 'private health services provider' will help to avoid any confusion about which parts of the Bill apply to which bodies—for example, to primary care, which could have fallen under that definition as previously drafted.

O ran gwelliannau Mark Isherwood AC, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil fod y gwelliannau hyn, yn ei farn ef, yn cyfyngu'n ddifrifol ar y darparwyr iechyd preifat y gallai'r Ombwdsmon ymchwilio iddynt.

Derbyniwyd gwelliannau'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a thynnwyd gwelliannau 24A a 24B yn ôl.

Roedd **Grŵp 13** yn ymwneud â *rhoi'r gorau i ymchwiliadau*. Ystyriwyd mai tacluso pethau oedd nod y grŵp hwn o welliannau ac nid oeddent yn newid bwriad polisi'r Bil yn ôl yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

Roedd **Grŵp 14** yn ymwneud â'r *weithdrefn ymchwilio*. Roedd y gwelliannau allweddol yn yr adran hon yn ymwneud â rhannu cynigion i gynnal ymchwiliadau, a rhoi cyfle i awdurdodau rhestredig roi sylwadau arnynt.

Roedd **Grŵp 15** a **Grŵp 16** yn ymwneud ag *adroddiadau*. Roedd y gwelliannau mwyaf nodedig yn dileu'r gofyniad ar awdurdodau rhestredig, wrth ystyried a ddylid ymrwmo i gontract ar gyfer gwasanaethau gyda darparwr iechyd preifat, i roi sylw i adroddiad a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon. Mae hynny'n gymwys i adroddiadau arbennig hefyd.

Roedd gwelliannau **Grŵp 17** yn ymwneud â materion lle mae person yn debygol o ddiodef anghyfiawnder. Dyma a nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ynglŷn â'r gwelliannau allweddol:

Amendments 43, 44, 48 and 50 reflect that the ombudsman may conclude that a person is in future likely to sustain injustice or hardship, and not just that a person has sustained injustice or hardship. In Part 5, relating to social and palliative care, amendments 101, 102, 105 and 106 have the same effect.

Roedd **Grŵp 21** yn ymwneud ag *egwyddorion ynghylch ymdrin â chwynion*. Yn ôl yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn darparu gwell cydbwysedd rhwng rhyddid yr Ombwdsmon i ddrafftio'r datganiad o egwyddorion a gallu'r Cynulliad i wrthod y datganiad o egwyddorion os yw'n teimlo bod angen gwneud hynny. Yn arwyddocaol, o ganlyniad i'r set hon o welliannau, bydd yn ofynnol i awdurdodau rhestredig gael gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae **Grŵp 22** yn ymwneud â *gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion*. Yn benodol, mae'r gwelliannau'n cadarnhau na all y gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion wrthdaro ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gymwys i awdurdod rhestredig. Derbyniwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn, er i bleidlais gael ei chynnal ar welliannau 61-63 a 65-70. Ymatalodd Aelodau'r Ceidwadwyr ac roedd yr holl Aelodau eraill o blaid.

Grŵp 24 *Cydweithio ag eraill*. Nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil fod y gwelliannau yn y grŵp hwn yn rhoi argymhelliad 2 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor [Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau] ar waith ac yn sicrhau bod yr Ombwdsmon a'r personau a bennir yn deall yn glir pryd y gallent gydweithio ar faterion.

Roedd y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn hefyd yn rhoi eglurder ynghylch ymgynghori â chomisynwyr eraill a Gweinidogion Cymru pan fo modd i fwy nag un corff ymchwilio i fater. Roedd gwelliant 152 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf Safonau Gofal 2000, sy'n darparu y caiff pwerau'r comisiynydd plant a'r Ombwdsmon i gydweithio eu nodi ar wyneb y ddeddfwriaeth.

Grŵp 25 *Datgelu gwybodaeth.* Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gwelliannau sy'n darparu y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru rannu gwybodaeth berthnasol â'r Ombwdsmon pan fyddant yn cydweithio. Nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ei fod wedi cyflwyno gwelliant 118 mewn ymateb i argymhellad 7 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, a oedd yn gofyn iddo ystyried cydbwysu'r amddiffyniad yn erbyn datgelu adroddiadau drafft heb ganiatâd a diogelu'r archwilydd cyffredinol. Roedd gwelliannau arwyddocaol eraill yn ceisio cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Diogelu Data 2018.

Grŵp 26 *Difenwi.* Nod y gwelliannau yn y grŵp hwn oedd amddiffyn awdurdodau rhestredig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag hawliadau difenwi.

Grŵp 29 *Adolygu'r Ddeddf.* Roedd y gwelliant yn rhoi dyletswydd ar bwyllgor Cynulliad i adolygu'r Bil, a phe bai'n dod yn Ddeddf, dylid llunio adroddiad bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, nododd yr Aelod ei fod yn cyfeirio Aelodau at ei sylwadau cynharach ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r ddarpariaeth hon newid yng Nghyfnod 3, yn dibynnu ar welliannau'r Comisiwn yng Nghyfnod 3.

Roedd **Grŵp 30, Grŵp 31 a Grŵp 32** yn darparu ar gyfer gwelliannau o ran *dehongli, pwerau gwneud rheoliadau a'r trosolwg.*

Y gwelliant allweddol yn y tri grŵp hyn oedd gwelliant 139, a oedd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys deddfiad yn y Bil hwn. Nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil:

Now, while this expands the power that is set out in the Bill as introduced, it puts the Welsh Ministers in the same position they are under the 2005 Act.

[...] The use of these powers will, of course, be closely scrutinised by the CLA committee itself.

Gwelliannau Llywodraeth Cymru

Yr unig welliant i'r Bil gan Lywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2 oedd gwelliant 222 (grŵp 28 – *Gofynion y Gymraeg*).

Roedd y gwelliant gan y Gweinidog dros Gyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AC, yn cynnig hepgor adran 71 o'r Bil, a oedd yn darparu y dylai'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth iaith Gymraeg. Yn ei le, cynigiwyd mewnosod darpariaeth a fyddai'n sicrhau bod yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Derbyniwyd y gwelliant.

Gwelliannau aelodau'r Pwyllgor

Ni chytunwyd ar bob un o'r 10 o welliannau a gynigiwyd gan aelodau'r Pwyllgor fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2. O'r rhain, cafodd gwelliannau 227, 228 (Grŵp 12 - *Penderfyniadau a wnaed heb gamweinyddu*) a 229 (Grŵp 27 - *Panel Adolygu Annibynnol*) a gyflwynwyd gan Leanne Wood AC, a gwelliannau 24A a 24B (Grŵp 11 - *Materion y gellir ymchwilio iddynt*), 223 (Grŵp 19 - *Egwyddorion Nolan*) a 226 (Grŵp 18 - *Awdurdodau rhestredig*) a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AC naill ai eu tynnu'n ôl neu ni chawsant eu cynnig.

Roedd y gwelliannau mwyaf arwyddocaol gan Aelodau yn cynnwys:

Gwelliant 224 (Grŵp 20 - *Digolledu*), a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AC, a oedd yn cynnig cynnwys darpariaeth i'r Ombwdsmon argymhell bod awdurdod rhestredig yn gwneud taliad i ddigolledu person a dramgwyddwyd. Nododd yr Aelod a oedd yn cynnig y gwelliant:

This amendment introduces a direct power for the ombudsman to recommend financial redress on the face of the Bill. The ombudsman has directly requested this power to be included to shield his office from potential legal proceedings.

[...] The ombudsman considers that any legal challenges have the potential to limit his ability to provide just and fair remedies for citizens in Wales. In view of the current wording of section 34 of the 2005 Act and the ombudsman's wide discretion to make recommendations, the ombudsman considers that any such challenge would be at odds with the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. However, an amendment giving the ombudsman a direct power to award financial redress would place the matter beyond any doubt and would protect the office from legal challenge, such as that experienced in England and Northern Ireland.

Roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a'r Gweinidog o'r farn bod eisoes gan yr Ombwdsmon bwerau dewisol eang i wneud argymhellion, a all gynnwys argymhell digolledu. Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant, gyda chwe yn erbyn a dau o blaid. Gwrthodwyd y gwelliant.

Roedd gwelliant 225 (Grŵp 23 - *Diffiniad o ofal lliniarol*), a gyflwynwyd hefyd gan Mark Isherwood AC, yn cynnig mewnosod darpariaeth a fyddai'n darparu ar gyfer ystyr ehangach **"gofal lliniarol"**. Wrth gynnig y gwelliant, dywedodd yr Aelod:

Amendment 225 broadens the definition of palliative care to include both World Health Organization and National Institute for Health and Care Excellence guidelines.

[...] this amendment places a duty on the ombudsman to consider relevant guidance that would widen out the definition of palliative care as a matter of course to reflect what it truly encompasses in its entirety.

Nid yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn credu y dylai'r Bil hwn ymyrryd â diffiniadau o'r fath, a fewnosodwyd yn Neddf 2005 gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwrthodwyd y gwelliant.

Roedd gwelliannau 229 a 230 (Grŵp 27 - *Panel Adolygu Annibynnol*), a gyflwynwyd gan Leanne Wood AC, yn bwriadu sefydlu *Panel Adolygu Annibynnol* i adolygu perfformiad yr Ombwdsmon wrth gyflawni ei swyddogaethau. Byddai'r ddarpariaeth wedi caniatáu i'r Panel adolygu ac ymchwilio i fater y cyfeiriwyd ato gan berson y mae'r Ombwdsmon wedi ystyried ei gais a phenderfynu yn ei gylch. O dan yr Atodlen arfaethedig (gwelliant 230), byddai'r Cynulliad wedi bod yn gyfrifol am aelodau'r Panel Adolygu Annibynnol ac am eu tâl cydnabyddiaeth, gan gynnwys taliadau tuag at bensiynau.

Er bod rhywfaint o gydymdeimlad ag egwyddor y cynnig, roedd rhai pryderon sylweddol y byddai'r Panel Adolygu Annibynnol yn darparu ar gyfer haen arall o fiwrocratiaeth a chost i'r pwrs cyhoeddus. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

If I were to support this proposal, I would need to be convinced that this layer of regulation would lead to an improvement in public services beyond that which could be achieved by the extra investment. It would also be important to consider what qualifications a member might need to effectively review the ombudsman's decisions and on what criteria those decisions should be challenged. At this stage, I cannot see a compelling case that creating an independent review panel of this nature for the ombudsman would be an effective use of public money.

Ategodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil farn y Gweinidog, gan nodi:

As the ombudsman is already accountable to the Assembly and to the courts, I believe the likely costs of this approach would outweigh any benefits.

[...] the creation of an independent review panel would probably require more detailed amendments setting out the powers of the panel and the full procedure that would apply to the panel's investigations. So, like many others, I remain unconvinced that this is appropriate at this point.

Nododd Leanne Wood AC yn ei hymateb fod hwn yn welliant ymchwilgar, a dywedodd y dylid ymchwilio ymhellach i'r mater hwn:

I would like to see this matter explored further if that is possible

[...] No ombudsman could possibly get everything right, so surely it's important to prevent that further injustice by introducing another set of eyes to look reasonably at an aggrieved person's case. In summary, Plaid Cymru would welcome the opportunity to have further discussions with the Member in charge and the Welsh Government on this policy aim, including further clarity around potential cost in comparison to the present arrangements that the ombudsman has in place, and how we may take that forward at Stage 3.

Tynnwyd gwelliant 229 yn ôl o dan Reol Sefydlog 26.66(i), ac o ganlyniad, methodd gwelliant 230.

Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ar 1 Chwefror 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff Aelodau'r Cynulliad, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a Gweinidogion Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.

Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mawrth i ystyried gwelliannau i'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2). Yn dilyn Cyfnod 3, rhagwelir y bydd gofyn i'r Cynulliad bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yng Nghyfnod 4. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer Cyfnod 4.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch **proses ddeddfu'r Cynulliad Cenedlaethol ar ei wefan**. I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â thîm Clercio y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**.